# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## **RHAN 8**

## MATERION ERAILL

*Cyfrifon SAC*

33 (1) Yr Archwilydd Cyffredinol fydd y swyddog cyfrifyddu ar gyfer SAC.

(2) Rhaid i'r swyddog cyfrifyddu, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan y Trysorlys—

(a) cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy, a

(b) paratoi datganiad o gyfrifon.

(3) Rhaid i ddatganiad o gyfrifon roi barn wir a theg ar—

(a) cyflwr materion SAC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a

(b) incwm a gwariant SAC yn ystod y flwyddyn ariannol.

(4) Mae'r cyfarwyddiadau y caiff y Trysorlys eu rhoi yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) gyfarwyddiadau yn ymwneud â'r canlynol—

(a) y materion a'r trafodion ariannol y mae'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon i ymwneud â hwy;

(b) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cyfrifon a'r modd y mae'r cyfrifon i'w cyflwyno;

(c) y dulliau a'r egwyddorion y mae'r cyfrifon i'w paratoi yn unol â hwy;

(d) yr wybodaeth ychwanegol (os oes gwybodaeth felly) sydd i ddod gyda'r cyfrifon neu'r datganiad o gyfrifon.

(5) Caiff y cyfarwyddiadau y caniateir i'r Trysorlys eu rhoi hefyd gynnwys cyfarwyddiadau i baratoi cyfrifon sy'n ymwneud â materion a thrafodion ariannol personau ac eithrio SAC.

(6) Mae gan swyddog cyfrifyddu SAC, mewn perthynas â chyfrifon a chyllid SAC, gyfrifoldebau eraill a bennir o bryd i'w gilydd gan y Cynulliad Cenedlaethol.